Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

1. **Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26?**

Er ein bod yn cydnabod bod cyllideb Llywodraeth Cymru 25-26 yn well na'r blynyddoedd cynt, mae'n bell o fod yn cyflwyno'r newid trawsnewidiol sydd eu hangen i weithio tuag at nodau cynaliadwy, hirdymor o hyd. Roedd gan y sector gwirfoddol obeithion uchel am y gyllideb, yn enwedig gan ystyried y setliad mwy o faint a addawyd gan Lywodraeth y DU. Roeddem yn disgwyl gweld mwy o arian wedi'i neilltuo ar gyfer atal, contractau a grantiau cyhoeddus mwy hirdymor a mwy o adnoddau yn cael eu rhoi i alluogwyr partneriaethau a chydweithio gyda'n sector. Yn anffodus, ni wnaethom weld newid trawsnewidiol o'r fath yn y flwyddyn ddiwethaf. Er i chwech o bwyllgorau'r Senedd gefnogi ein pryderon ynghylch Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr (NICs), ni chyflwynwyd unrhyw fesurau lliniaru ar gyfer y sector yng nghyllideb Llywodraeth Cymru chwaith. Ni welwyd gwelliant sylweddol yn yr ymarferion comisiynu nac yn y cyllid sydd ar gael i wasanaethau'r sector gwirfoddol a gynigir gan gyrff cyhoeddus. Mae safonau byw'r bobl a'r cymunedau y mae ein sector yn eu cefnogi wedi aros yr un fath, neu ddirywio, ac mae iechyd y sector gwirfoddol mewn sefyllfa debyg.

Rydym wedi cael ar ddeall bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn bwriadu cynnig cyllideb bron yr union yr un peth eleni (ochr yn ochr â chynnydd ar sail chwyddiant) ac, yn naturiol, mae hyn yn rhwystredig i'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'r syniad o fethu â datrys sefyllfa'r

gyllideb, a fyddai'n tanio Adran 127 Deddf Llywodraeth Cymru, a'r ansefydlogrwydd a fyddai'n deillio o hynny, yn fwy o bryder i fudiadau gwirfoddol sydd eisoes yn gweithredu mewn amgylchedd anodd tu hwnt.

7. **A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol a chefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?**

Cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree *adroddiad cynhwysfawr ar dlodi yng Nghymru yn ddiweddar. Cadarnhaodd eu gwaith ymchwil fod cyfraddau tlodi wedi bod yn amrywio rhwng 21-22% dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn dangos nad yw'r ymyriadau ar draws pob lefel o'r llywodraeth wedi bod yn ddigon i wrthdroi'r duedd ac ar y gorau, y cwbl y maen nhw wedi'i wneud yw arafu twf tlodi ymhlith y boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaeth yr adroddiad hefyd ddatgelu bod cyfraddau tlodi dwfn yng Nghymru wedi codi o 33% ym 1994-97 i 47% yn 2020-23. Mae'r gyfradd gynyddol o bobl sy'n boddi mewn tlodi yn bryderus tu hwnt. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â'r adroddiadau rydym yn eu derbyn gan elusennau, sy'n dweud wrthym fod defnyddwyr gwasanaethau yn wynebu anghenion llawer mwy cymhleth ac anawsterau â gwreiddiau dyfnion wrth geisio mynd i'r afael â'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu.

Dylid hefyd ystyried y broblem o dlodi sydd wedi ymwreiddio drwy lygaid croestoriadol – yn aml, y bobl sy'n fwyaf tebygol o fyw mewn tlodi twfn yw'r rheini sy'n wynebu anawsterau lluosog eraill. Mae cyfradd y bobl anabl sydd mewn tlodi yng Nghymru yn 32%, traean yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r gwahaniaeth hwn yn fwy amlwg fyth ymhlith oedolion oedran gweithio, gyda 37% o oedolion oedran gweithio anabl yn byw mewn tlodi, bron dwbl cyfradd eu pobl abl cyfatebol. Gwnaeth newidiadau diweddar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer Taliadau Annibyniaeth Personol (PIPs) ac elfennau iechyd y Credyd Cynhwysol roi mwy fyth o bobl anabl mewn perygl o dlodi a thlodi twfn. Mae'r penderfyniadau hyn y tu allan i gylch gwaith Llywodraeth Cymru, ond dylid ystyried eu heffaith fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i leihau cyfraddau tlodi yng Nghymru.

Mae mudiadau gwirfoddol yn cynnig plethora o wasanaethau cyffredinol, ond yn fwy hanfodol, gwasanaethau wedi'u teilwra, ar gyfer pobl anabl – o fanciau bwyd (*Mae 81% o ddefnyddwyr banciau bwyd yng Nghymru yn anabl) i gymorth cyflogaeth. Yn anffodus, mae'r argyfwng costau byw a chyllid annigonol wedi dechrau torri'r llinyn achub hwn. Yn y flwyddyn ddiwethaf,

gwnaeth Leonard Cheshire roi'r gorau i weithredu yng Nghymru a chaeodd Cymryd Rhan ei ddrysau (ar ôl rhoi contractau yn ôl i awdurdodau lleol nad oedd mwyach yn talu am y costau cyflenwi). Gwnaeth Follow Your Dreams, Pobl yn Gyntaf y Fro a Pobl yn Gyntaf Powys hefyd gau eu drysau. Gwnaeth Anheddau, y darparwr cymorth nid-er-elw mwyaf yng Ngogledd Cymru i bobl ag anableddau dysgu, *rybuddio yn ôl ym mis Gorffennaf eu bod mewn perygl o gau yn dilyn y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr (NICs) a'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Fel yr oedd ym *Medi 2025, maen nhw'n wynebu diffyg o £400,000 oherwydd y costau uwch hyn, sef diffyg o 11%. Rhannodd y Prif Swyddog Gweithredol Claire Higgins os na fyddant yn derbyn cynnydd o 8.8% o leiaf yn eu contractau awdurdod lleol, byddant yn dechrau ymgynghoriad dileu swyddi gyda'u staff ym mis Hydref.

9. **A gaiff dull gweithredu Llywodraeth Cymru, o ran gwariant ataliol, ei gynrychioli o ran dyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar).**

Gwnaeth cyllideb y llynedd barhau ar y trywydd pryderus rydym wedi'i weld yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda llai o gyfeiriad at atal yn naratif y gyllideb. Mae hefyd diffyg eglurder o ran faint gaiff ei wario ar atal yn y gyllideb gyffredinol ac o fewn portffolios y gweinidogion unigol. Mae hyn mewn perygl o danseilio llwyddiant hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ychwanegu costau at wasanaethau aciwt, a ffrwyno uchelgeisiau Cymru o fod yn genedl Marmot.

Teimlwn nad oes cyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu buddsoddi mewn atal. Pan mae canllawiau yn bodoli, nid yw'r rhain yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws cyrff comisiynu.

Mae mudiadau gwirfoddol yn parhau i gael anhawster cael gafael ar gyllid cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar atal. Gwnaeth Heidi Bennett, Prif Swyddog Gweithredol BAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr), grynhoi'r broblem, sydd wedi'i hadleisio gan gyrff seilwaith eraill sy'n derbyn adborth gan eu haelodau:

"Y bwriad yw clustnodi 20% o'r RIF [Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol] i ddarparwyr yn y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, (...) caiff symiau a

glustnodwyd eu dehongli weithiau fel uchafswm yn hytrach nag isafswm y cyllid."

Hoffem hefyd alw am fwy o eglurder ynghylch y diffiniad o atal a sut dylai arian a glustnodwyd ar gyfer atal gael ei ddefnyddio. Er enghraifft, o fewn y maes iechyd, hoffem weld dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar atal anhwylderau yn hytrach na dim ond lleihau'r defnydd o'r gwasanaeth. Mae'r un olaf yn agor y drws i fesurau a all leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus dros dro, ond nid yw'n fuddiol i bobl yn yr hirdymor a byddai'n arwain at ymyriadau drutach maes o law.

Hoffem weld dull hirdymor a chynaliadwy o fynd ati i ymdrin ag atal, a hwnnw wedi'i gyllido'n dda, ei gyd-gynhyrchu â'r sector gwirfoddol ac yn arwain at ganllawiau clir i gyrff cyhoeddus ar gydweithio gyda mudiadau gwirfoddol.

10. Sut y dylai Llywodraeth Cymru egluro ei phenderfyniadau cyllido, gan gynnwys sut mae ei gwariant yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion polisi?

Rydym yn croesawu cyhoeddiad cynnar llinell amser clir a manwl ar gyfer craffu ar gyllideb eleni. Gan ystyried bwriad Llywodraeth Cymru i baratoi cyllideb debyg iawn i gyllideb y llynedd, credwn fod hwn yn gyfle ardderchog i ysgrifenyddion cabinet gyhoeddi manylion sut maen nhw'n bwriadu gwario o fewn eu portffolio ar yr un pryd â'r gyllideb ddrafft.

Dylai dogfennaeth ar wariant ar draws ac o fewn y Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) gysylltu prosesau penderfynu â'r materion polisi y mae'r dyraniadau i fod i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn wir ar gyfer y meysydd sydd wedi'u dewis i gael mwy o gyllid a'r rheini sy'n cael llai o flaenoriaeth. Byddai'n ddefnyddiol iawn gweld eglurhad naratif o'r asesiadau effaith a gynhelir pan benderfynir rhoi llai o flaenoriaeth gyllidebol i fater polisi a sut mae hyn yn cymharu â'r budd disgwyliedig o fuddsoddi yn rhywle arall.

11. Sut y gellir gwella'r ddogfennaeth a ddarperir ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft gan Lywodraeth Cymru?

Croesawn y gwelliannau sydd wedi'u gwneud i'r ddogfen Canllaw Cyllideb. Mae ei natur gryno a chynnwys graffigau yn gwneud y ddogfen yn hygyrch i

gynulleidfa ehangach. Gellid cynhyrchu dogfennau defnyddiol tebyg ar gyfer dyraniadau gwario o fewn pob MEG.

Adleisiwn ein hargymhelliad o'r flwyddyn ddiwethaf:

Dylid defnyddio iaith a dull cyson yn nhablau Llinell Wariant y Gyllideb o un flwyddyn i'r llall er mwyn gallu olrhain llinellau cyllidebol y tu allan i'r Llywodraeth yn haws. Byddem hefyd yn croesawu dull mwy cyson o ymdrin â'r dogfennau'r MEGs, gan sicrhau bod data yn cael ei gyflwyno mewn modd cyson ar draws adrannau.

12. Sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i ymdrin â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau GIG sydd wedi'u cynllunio ac nad ydynt yn rhai brys. A ydych chi'n credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?

Mae hwn yn fater amlochrog sy'n gofyn am gydweithio agos rhwng pob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, adnoddau priodol a chyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi gweld aneffeithlonrwydd o fewn un maes yn benodol, sef yn yr ymarfer o gomisiynu gwasanaethau gan y sector gwirfoddol, fel cymorth o'r ysbyty i'r cartref. Mae gwasanaethau cymorth o'r ysbyty i'r cartref wedi bod ar waith ers mwy nag 20 mlynedd, a serch eu rôl hanfodol mewn rhyddhau gwelyau ysbyty, maen nhw'n parhau i gael eu comisiynu'n flynyddol, ac yn aml, nid yw'r contractau yn ddigon i dalu gwir gost y ddarpariaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i fudiadau gwirfoddol recriwtio a chadw staff hyfforddedig. Caiff adnoddau elusennau a'r sector cyhoeddus eu gwastraffu ar brosesau tendro, adnewyddu ac ailymgeisio blynyddol. Credwn y dylai cynllun cadarn ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn gynnwys adnoddau digonol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir a chyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru i gynnig contractau hirdymor lle bynnag y bo'n bosibl.

Atgyfnerthir y farn hon gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn argymhelliad yn eu hadroddiad ym Medi 2025:

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector i sefydlu dull strategol o ddarparu

gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref. Dylai hyn gynnwys edrych ar sut i wella'r broses gomisiynu, gyda chyllid mwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref sydd â hanes o lwyddo, a sut y gall leihau rhestrau aros ar gyfer y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl.

14. A fu digon o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn seilwaith sylfaenol y sector cyhoeddus.

Er i Lywodraeth Cymru ddarparu rhai codiadau mawr eu hangen yn ei chyllideb ar gyfer 2025-2026, nid yw'r rhain wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y blynyddoedd di-ri lle nad yw cyllidebau seilwaith y sector cyhoeddus wedi cadw i fyny â'r galw am wasanaethau. Mae hyn yn effeithio ar y sector gwirfoddol mewn dwy ffordd:

- Mae mwy o bobl na allant gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn troi at fudiadau gwirfoddol am help (ac mae eu hanghenion yn dod yn fwyfwy cymhleth)
- Mae contractau cyhoeddus yn aml yn rhai tymor byr ac nid ydynt yn ddigon i dalu'r gwir gost o ddarparu gwasanaethau (felly mae mudiadau gwirfoddol yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff, hyd yn oed pan fyddant yn sybsideiddio contractau cyhoeddus gydag arian wrth gefn a rhoddion elusennol)

Mae'n hollbwysig bod buddsoddiad digonol a strategol yn cael ei wneud yn seilwaith y sector cyhoeddus. Dylai hyn gael ei seilio ar ddull gweithredu hirdymor sy'n seiliedig ar atal a chyfeiriad cryf ar gyfer gweithredu'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn llawn ar draws pob corff cyhoeddus. Rhannodd Rhiannon Denning, Cyfarwyddwr Advocacy Support Cymru, enghreifftiau o gontractau eirioli cymunedol nad ydynt wedi'u cynyddu ers 2008. Nododd ymhellach fod hyn wedi gwthio'r sector eirioli nid-er-elw i hysbysu rolau sy'n dechrau ar ychydig yn uwch na'r isafswm cyflog, pan mae Llywodraeth Cymru yn hysbysebu rolau cyffelyb yn y sector cyhoeddus drwy Llais, sy'n gallu talu hyd at £14000 yn fwy'r flwyddyn. Mae'r diffyg buddsoddiad digonol yn seilwaith y sector cyhoeddus wedi arwain cyrff cyhoeddus i orfod troi eu ffocws bron yn gyfan gwbl at ymdrin â'r galw am wasanaethau aciwt, heb fawr o gyfle i fuddsoddi'n briodol mewn atal.

16. Sut y mae tystiolaeth a data yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb, ac a yw'r dull hwn yn glir?

Mae'r dystiolaeth gyd-destunol a ddarperir trwy ddogfennau ategol y gyllideb ddrafft, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) ac adroddiad y Prif Economegydd, yn rhoi trosolwg da o ystyriaethau ar y lefel strategol (dyraniad i'r Prif Grwpiau Gwariant). Nid yw'r data a'r dystiolaeth a ddefnyddir fel sail i benderfyniadau ar lefel portffolio (dyraniad o fewn y Prif Grwpiau Gwariant) mor hawdd i gael gafael arnynt ac mae maint yr wybodaeth yn amrywio ar draws y MEGs. Gellir gwneud y dull dyrannu o fewn MEGs yn fwy clir drwy gynnwys mwy o ddata a thystiolaeth mewn adroddiadau unigol yr ysgrifenyddion cabinet a gosod templed â safon ofynnol leiaf ar gyfer y data a ddarperir.

17. A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i fudiadau'r trydydd sector, sy'n wynebu galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a chostau ychwanegol yn dilyn y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn ddigonol?

Nid yw'r cymorth sydd wedi'i roi i'r sector gwirfoddol wedi bod yn ddigonol yn gyffredinol. Gwelir hyn yn nata'r Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr, sy'n dangos bod 50% yn fwy o elusennau wedi uno a 7% yn fwy o elusennau wedi cau yng Nghymru rhwng Medi 2024 ac Awst 2025. Nid yw'r data hwn yn cynnwys y gwasanaethau sydd wedi lleihau nac elusennau mawr yng Nghymru a Lloegr sydd wedi tynnu'n ôl drwy wneud llai neu roi'r gorau i weithredu yng Nghymru'n gyfan gwbl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er nad yw pob elusen yn uno am resymau ariannol, gwyddom mai hwn oedd y sbardun y tu ôl i o leiaf rhai ohonynt. Data cau ac uno yw dim ond un o'r lliaws o ddangosyddion a ddefnyddir i asesu iechyd y sector gwirfoddol. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi edrych ar amrediad llawer mwy o ddata a gwybodaeth ledled Cymru a Lloegr i gynhyrchu eu *hadroddiad ar Asesiad Risg y Sector Elusennol ym Medi 2025, sy'n nodi gwydnwch ariannol yn glir ymhlith y risgiau difrifol sy'n wynebu elusennau.

Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r ymateb hwn, mae'r is-sector anabledd wedi'i daro'n arbennig o galed. Mae nifer o elusennau allweddol yn cau eu drysau, ac eraill wedi dileu swyddi a lleihau neu roi'r gorau i'w gwasanaethau yng Nghymru. Un enghraifft nodedig iawn yw *Cymryd Rhan – gwnaeth yr elusen hon, gyda 40 mlynedd o hanes, gau ar ôl rhoi eu contractau cyhoeddus yn ôl am na allai eu sybsideiddio mwyach drwy ei harian wrth gefn. Mae *Anheddau yng Ngogledd Cymru yn edrych ar ddiffyg o £400,000 oherwydd y

cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr. Rhybuddiodd y Prif Swyddog Gweithredol Claire Higgins os na fyddant yn derbyn o leiaf 8.8% yn fwy o gyllid gan awdurdodau lleol bydd yn rhaid iddynt lansio ymgynghoriad ar ddileu swyddi ym mis Hydref.

Mae is-adrannau eraill hefyd wedi'u heffeithio gan ddewisiadau i gau neu uno, gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Ym mis Mai, unodd Cymorth i Fenywod Caerdydd â Llamau, *gan nodi costau uwch a oedd wedi gadael Cymorth i Fenywod yn fregus tu hwnt'). Rai wythnosau'n ôl, gwnaeth yr elusen hwylio datblygu ieuenctid ac addysg amgylcheddol, *Her Cymru, gau ei drysau ar ôl 16 mlynedd o weithredu.

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn parhau i dderbyn llawer o alwadau gan fudiadau gwirfoddol sydd angen cyngor. Hyd at 12 Medi 2025, mae staff TSSW wedi treulio dros 19,000 o oriau'n rhoi cymorth i fudiadau'r sector gwirfoddol, gan dreulio 50 munud ar bob achos ar gyfartaledd.

Ym mis Tachwedd 2024, dywedodd 38% o fudiadau gwirfoddol wrthym os na fydd unrhyw beth yn newid o ran eu sefyllfa ariannol, bydd yn rhaid iddynt ddechrau ystyried camau mawr, gan gynnwys cau o fewn y chwe mis i flwyddyn nesaf. Ddeng mis yn ddiweddarach, mae'n amlwg bod y rhagolwg ariannol wedi dirywio'n sylweddol i lawer, gyda chyfraddau diswyddo, uno a chau brawychus ar draws y sector. Bydd CGGC yn cynnal arolwg o gyflwr y sector ym mis Hydref ac yn cyflwyno data wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2025.

Mae mudiad gwirfoddol ar hyd a lled Cymru yn ymladd i oroesi. Nid yw'r syniad o gyllideb sydd bron yr union yr un peth gyda chynnydd ar sail chwyddiant gymharol fach yn llenwi arweinwyr elusennau â hyder. Heb arian wedi'i neilltuo i'r sector gwirfoddol a chanllawiau clir i gyrff cyhoeddus ar ymarferion comisiynu teg, mae'r patrwm llwm hwn o fudiadau yn cau yn debygol o barhau i'r flwyddyn newydd.

Galwn ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu'r sector gwirfoddol yn ei chyllideb i ddod drwy gyhoeddi cyfarwyddyd clir i bob cyllidwr cyhoeddus i gynnig grantiau a chontractau sy'n ddigon i dalu'r gwir gost o ddarparu'r gwasanaethau.

Yn yr hirdymor, hoffem weld newid sylfaenol yn y ffordd y caiff y sector gwirfoddol ei chyllido, gan ddefnyddio'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector fel sylfaen, gyda grantiau a chontractau amlflwyddyn sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth ac agenda ataliol gref.

18. Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i gefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol yn gyfle allweddol i gyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn y Ddeddf.

Mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gynharach y flwyddyn hon, amlygodd cynrychiolwyr y sector gwirfoddol nifer o feysydd oedd angen eu gwella gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.
Trafododd Jessica Bickerton, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) sut mae natur tymor byr cyllido yn tanseilio'r gwaith ataliol pwysig y mae'r sector gwirfoddol yn gysylltiedig ag ef. Gwnaeth Heidi Bennet, Prif Swyddog Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) hefyd rannu ei bod hi'n anodd olrhain arian a glustnodwyd ar gyfer atal yn aml, a'i fod yn anodd asesu ei effaith.

Byddai ymwreiddio'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn llawn o fewn prosesau penderfynu pob corff cyhoeddus yn hybu cydweithio agosach ar draws sectorau ac yn galluogi mudiadau gwirfoddol i gynorthwyo'r sector cyhoeddus i gyflawni yn erbyn nodau'r Ddeddf.

*Saesneg yn unig